



## **Diwrnod Iechyd a Ffitrwydd yr Adran Addysg Gorfforol**

Am yr ail flwyddyn yn olynol cynhaliwyd diwrnod iechyd a ffitrwydd er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion a staff am y pwysigrwydd o gadw'n heini. Y tro hwn roedd y diwrnod yn rhan o weithgareddau wythnos.

Mae gweithgaredd o'r fath yn atgyfnerthu gwaith yr adran Addysg Gorfforol o'n cadw ni gyd yn heini. Mae nifer o dimau wedi eu sefydlu a chynhelir clybiau 5X60 yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol.

Diolch i Glwb Pêl rwyd Caergybi am roi o'u hamser i hyfforddi genethod Ysgol Uwchradd Bodedern. Roedd yn braf gweld nifer o enethod yn yr ymarfer ac yn mwynhau. Bwriad yr hyfforddiant oedd hybu mwy o enethod i ymaelodi â chlybiau tu allan i'r ysgol. Cafwyd llwyddiant wrth i sawl unigolyn ymarfer gyda chlwb yn yr wythnosau sydd wedi dilyn.

Diolch yn fawr iawn hefyd i Enzone am gynnal 'bootcamp' i staff yr ysgol i ddatlu diwrnod ffitrwydd a lles. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr! Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus gyda phawb yn dechrau'r diwrnod am 8.45 drwy wneud ymarfer corff - aerobeg i flynyddoedd 7 a 8 a sialens sgwat i flwyddyn 9,10,11,12 a 13. Tîm staff y dynion gurodd y gem bêl droed yn erbyn bechgyn blynyddoedd 12 ac 13 a merched bl12 ac 13 gurodd y gem pêl rwyd yn erbyn merched y staff.

Dyma rhai o'r staff a disgyblion yn mwynhau eu hunain yn ystod y dydd.



## **Pennaeth newydd**

Mae'n bleser cael cyhoeddi fod y corff llywodraethol wedi penodi pennaeth newydd ar gyfer mis Ionawr, sef Mrs Catrin Jones Hughes. Mae nifer ohonoch yn adnabod Mrs Hughes yn barod, fel dirprwy bennaeth yr ysgol.

Hoffem fel disgyblion, staff a llywodraethwyr longyfarch Mrs Hughes yn wresog ar ei phenodiad, gan edrych ymlaen at gyfnod newydd yn hanes yr ysgol.


## **Plant mewn angen**



Fel rhan o ddiwrnod Plant mewn Angen cynhaliwyd nifer o weithgareddau gan ddisgyblion yr ysgol. Diolch yn bennaf i griw o flwyddyn 12 Courtney Jones, Abbie Jones a Cemlyn Jones a gododd £317.05 drwy eu gwaith trefnu. Yn ogystal, yn dilyn cais gan ddau o fechgyn blwyddyn 8, cynhaliwyd bore coffi brysur iawn er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen MacMillan. Diolch Tomos a Ceuron am eich gwaith, gan godi £222.12.

Mae eu gwaith yn ein cymuned ysgol yn parhau, wrth i'r ddau gynnal rhaglen gais ar radio'r ysgol.





Diolch i Tayera a'r tîm NWREN am eu cyflwyniad i holl ddisgyblion cyfnod allweddol 3 yr ysgol. Yn ystod y dydd, cafwyd cyfle i drafod effaith ymddygiad difriol tuag at grwpiau lleiafrifol mewn cymdeithas.

Codwyd ymwybyddiaeth disgyblion parthed gwaith NWREN a'r gefnogaeth sydd ar gael drwy'r elusen.

## Cerddor y flwyddyn

Pob lwc i ddau ddisgybl sydd yn perfformio yng nghystadleuaeth cerddor y flwyddyn. Bydd Kirsten Macdonald a James Magee yn cystadlu nos Wener y 6ed o Dachwedd. Gobeithio byddwn yn clywed am lwyddiannau'r ddau yn y dyfodol agos. Pob lwc.

## Cydnabyddiaeth o safonau

Yn flynyddol mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod bob ysgol uwchradd mewn categori. Ar sail hyn mae Ysgol Uwchradd Bodedern unwaith eto wedi ei hadnabod fel ysgol **ragorol**, ac rydym wedi ein gosod fel ysgol Categori 1 (y categori uchaf bosib). Golyga hyn fod yr ysgol yn **ysgol werdd**, a bod ein arferion da yn cael eu hadnabod ar draws Cymru. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion, staff a'r llwywodraethwvr.

## Dyddiadau pwysig.

Ffug Arholiadau blynyddoedd 11, 12 a 13: Yr wythnos yn dechrau Rhagfyr 14eg  
Sioe Ysgol 'Ail liwio'r Byd': Perfformiadau yn cychwyn am 7yh: Rhagfyr 8fed, 9fed a'r 10fed  
Diwrnod Siansi Nadolig ar gyfer 'Achub y Plant': Rhagfyr 10fed  
Disco i flynyddoedd 7,8,9 a 10: Rhagfyr 18fed  
Gwyliau'r Nadolig: Rhagfyr 21ain tan yr 2il o Ionawr.

## Clecs!

Mae Becky Hartshorn wedi cael ei dewis i fynd i astudio Karate gyda 10fed Dan yn Japan dros wyliau'r haf. Profiad gwych a chyfle anhygoel a ddaeth o ganlyniad i'w llwyddiant diweddar ym mhencampwriaeth Prydain.

Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer Eurgain a Naiomi Lloyd a'u ffrindiau am eu llwyddiant mewn cystadleuaeth dawnsio genedlaethol yn ddiweddar. Cafodd Naiomi ail yn y gystadleuaeth dawnsio stryd ac Eurgain drydydd. Daeth Anya Mlynarczyk yn bedwerydd ynghyd a dod yn bumed gyda'i phartner Lia Williams. Daeth y grwp yn 1af. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Wigan dros yr hanner tymor. Pob lwc ichi yn Nantwich a Blackpool.

Llongyfarchiadau enfawr i Ifan Pritchard, Meghun Tudor, Mared Edwards a Lois Postle am eu perfformiadau rhagorol yng nghynhyrchiad yr Urdd o'r sioe Les Miserables yng Nghaerdydd dros yr hanner tymor. Sêr 'West End' y dyfodol.



## Canlyniadau Gemau Pelrwyd:

Gemau cyntaf y tymor ac fe enillwyd y ddwy gêm.

Blwyddyn 9: Ennill o 7 gôl i 4 yn erbyn Caergybi

Blwyddyn 10: Ennill o 16 gôl i 3 yn erbyn Caergybi

## Gwersi Amddiffyn ABaCH

Ar ran yr Adran Addysg Gorfforol YUB diolchir yn fawr iawn i Bedwyr Ap Gwyn am roi gwersi amddiffyn i enethod blwyddyn 10 ac 11 yn eu gwersi ABaCH. Roedd yn llwyddiant mawr a'r genethod i gyd wedi mwynhau yn arw yn enwedig y rhannau lle gafodd Mrs Nerys Jones a Mrs Eleri Stephen eu taflu o gwmpas.

## Canlyniadau Pêl-droed

Gem y genethod o dan 15 -Gem gyfartal 5-5. Ymlaen i gic o'r sbotyn ac ennill o 5-5 yn erbyn YSTJ

Genethod o dan 16 - Colli yn erbyn Ysgol Caergybi o 4 gôl i 0

## Canlyniadau Hoci

Gem hoci i enethod -16 yn erbyn Ysgol Llangefni - Colli 4-1.

## Bechgyn Ysgol Uwchradd Bodedern

Mae bechgyn yr ysgol wedi chwarae nifer o gemau rygbi'r tymor yma. Mae bechgyn blwyddyn 7 wedi chwarae pedair gem i gyd. Roeddynt yn fuddugol yn erbyn ysgolion Amlwch a Chaergybi. Yn anffodus colli oedd eu hanes yn erbyn Ysgol David Hughes a Llangefni. O ran y bechgyn blynyddoedd 8 a 9, roeddynt yn fuddugol yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch. Colli oedd eu hanes yn erbyn Ysgol David Hughes, Caergybi a Llangefni. Yn olaf, cafodd bechgyn blynyddoedd 10 a 11 nifer o gemau agos. Roeddynt yn fuddugol yn erbyn Ysgolion Caergybi a Llangefni, colli wedyn yn erbyn Amlwch ac Ysgol David Hughes.

Yn y gemau pêl-droed, mae bechgyn blwyddyn saith wedi llwyddo i fynd drwodd i ail rownd Cwpan Cymru drwy guro Ysgol Syr Thomas Jones 7 gôl i 3. Colli oedd hanes y timau eraill yng nghwpan Cymru.

## **Mwy o glecs!**

Diolch i'r adran Saesneg am drefnu trip i'r aelodau o flwyddyn 12 ac 13 i weld cynhyrchiad o'r ddrama 'Streetcar Named Desire' yn theatr The Curve yn Leicester, Roedd hi'n ddiwrnod hir ond buddiol.

Mae'n amser yr arholiadau mewnol ac allanol i ddisgyblion hŷn yr ysgol. Mae'r disgyblion iau hefyd angen troi eu llygaid tua'r dyfodol. Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu gan yr adran gyrfaedd i wneud â phrofiadau STEM. Cafodd blwyddyn 9 i gyd bnawn blasu a holi cwmnïau cysylltiedig â diwydiant, technoleg a pheirianneg yng Ngholeg Menai. Profiad arall oedd cyflwyniad gan goleg meddygaeth Bangor i ddisgyblion sydd wedi dangos diddordeb mewn meddygaeth fel gyrfa yn y dyfodol.

Aeth 8 aelod o Glwb Coginio Bro Alaw i ymweld â Tesco ar y 12fed o Hydref, yn rhan o'r prosiect 'Farm to Fork'. Yn ystod yr ymweliad cafodd y grŵp profi'r stondin pysgod, y storfa, y rhewgell a'r oergell, gyda Mrs Kitching, rheolwr yr archfarchnad. Mae'r grŵp yn awr gyda gwell dealltwriaeth o sut mae bwyd yn cyrraedd ein platiau a chyfrinach riset 'Tiger bread'.

Yn ystod yr hanner tymor bu Kirsten MacDonald yng Ngwesty Deganwy Quay yn cystadlu yn y rownd gyntaf o Cog1nio, sef cyfres Cwmni Teledu Boom Plant. Mae'n gystadleuaeth i ddod o hyd i 'Cogydd Ifanc Gorau Cymru'. Bu'n paratoi bwyd yn dangos ei sgiliau coginio ar ei orau. Dewisodd Kirsten wneud tarten caramel hallt, a'r ail dasg o goginio omled. Roedd 50 yn cystadlu a llongyfarchiadau i Kirsten ar ei buddugoliaeth. Bydd Kirsten yn mynd ymlaen rwan i gystadlu yn yr ail rownd yn Nolgellau.

**Hwyl fawr!** Mae'r ysgol yn dymuno pob lwc i un o gymeriadau'r ysgol. Mae Mr Carwyn Edwards yn ein gadael i fynd i weithio ar ei liwt ei hun fel saer proffesiynol. Mae Mr Edwards wedi bod yn aelod allweddol o'r ysgol, gan gyfrannu gymaint i waith allgyrsiol yr ysgol a sicrhau gwedd rhagorol yr ysgol. Diolch a phob lwc Mr Edwards.